

11 Mai, 2018

Telerau ar gyfer Cynigion i ymgymryd â Chyfrifoldeb Gweinyddol am yr Academi Gymreig

Cefndir

Yng Nghyfarfod Cyffredinol Arbennig (CCA) yr Academi Gymreig (YAG) ar 14 Ebrill 2018, pleidleisiodd yr Aelodau/Cymrodwr/Aelodau Anrhydeddus oedd yn bresennol dros y dewis canlynol:

Hysbysebu ffenest o fis yn gofyn i bobl wneud cynigion ar gyfer cynghrair newydd o awduron a llenorion, y bydd pob un ohonynt yn Aelodau neu'n Gymrodwr, i reoli a gweinyddu YAG. Bydd Bwrdd Rheoli presennol YAG yn penderfynu ar y cynnig sy'n gweddu orau ac yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb ar sail hynny. Byddai Llenyddiaeth Cymru yn rhoi cefnogaeth weinyddol ar gyfer blwyddyn bontio wrth i YAG sefydlu ei hunan fel mudiad annibynnol.

Os bydd Bwrdd Rheoli YAG yn barnu na ddaeth cynigion priodol i law, neu os bydd y broses yn dod i stop heb obaith datrys pethau, yna dim ond fel brand ar gyfer ysgoloriaethau i awduron newydd y bydd YAG yn bodoli yn y dyfodol, yn ogystal â gwobr flynyddol 'Gwobr yr Academi Gymreig' am wasanaethau neilltuol i lenyddiaeth, wedi'i chysylltu ag enw Glyn Jones.

Telerau

Mae YAG yn gofyn am gynigion gan unigolion neu gynghreiriau o Aelodau/Cymrodwr/Aelodau Anrhydeddus yr Academi i **sefydlu'r Academi Gymreig fel cymdeithas â chyfansoddiad annibynnol** ar gyfer llenorion Cymru yn ystod 2018/19.

Er mwyn gallu trosglwyddo'r cyfrifoldeb am YAG o Fwrdd Rheoli presennol YAG, **byddai angen i'r gofynion canlynol fod wedi'u bodloni erbyn 31 Mawrth 2019:**

- Cyfansoddiad y cytunwyd arno
- Pwyllgor/Bwrdd Rheoli wedi'i enwebu neu'i ethol
- Trysorydd wedi'i enwebu i gymryd cyfrifoldeb ariannol
- Cadeirydd wedi'i enwebu neu'i ethol
- Cyfrif banc i'r mudiad
- Dau lofnodwr penodedig ar gyfer trafodion ariannol
- Cyfeiriad busnes

Byddai'r unigolyn neu'r gynghrair lwyddiannus yn gyfrifol am yr holl weinyddiaeth a'r rheolaeth ariannol o 1 Ebrill 2019 ymlaen, gan gynnwys:

- **Materion aelodaeth** (mae hyn yn cynnwys: prosesu a chofnodi ffioedd tanysgrifio; anfon atgoffebau ynghylch adnewyddu ffioedd tanysgrifio; cynnal a diweddarau'r gofrestr aelodaeth)
- **Cyfathrebu** (gan gynnwys gohebiaeth; ymholiadau; cyhoeddusrwydd/cysylltiadau cyhoeddus)
- **Rheolaeth ariannol** dros holl gronfeydd YAG (gan gynnwys gwaith cofnodi bob dydd; cyllidebau; cynllunio ariannol)
- **Digwyddiadau/Gweithgareddau** (trefnu, cynnal a gwerthuso)
- **Cyfarfodydd blynyddol**
- **Datblygiad, strategaeth a chynllunio busnes**

Sut i wneud cais

Mae tri cham i'r broses gwneud cais:

- 1) Anfon cynnig sy'n nodi:
 - a. Eich bod yn datgan diddordeb
 - b. Eich enw(au) a'ch statws aelodaeth
 - c. Eich gweledigaeth ar gyfer dyfodol yr Academi Gymreig (dim mwy na 200 gair)
 - ch. Eich gallu i sicrhau annibyniaeth lawn i'r Academi Gymreig erbyn 31 Mawrth 2019

Dyddiad cau: **dydd Iau 14 Mehefin, 2018**

Anfoner at: Tom Anderson, Cadeirydd YAG dros e-bost i: yracademigymreig@gmail.com

Bydd Bwrdd Rheoli presennol YAG yn asesu'r cynigion yn seiliedig ar ba mor dda maen nhw'n gweddu. **Efallai y gofynnir i un gynghrair:**

- 2) Gyflwyno Cynllun Busnes, fydd yn cynnwys:
 - a. Gweledigaeth
 - b. Nodau ac Amcanion
 - c. Targedau
 - ch. Amlinelliad o'r cynnig, fydd yn cynnwys strategaeth ddatblygu a'r broses y bwriedir ei dilyn er mwyn ei chyflawni (dylai hyn gynnwys dosrannu'r cyfrifoldebau o fewn y gynghrair)
 - d. Crynodeb o'r Gyllideb
 - dd. Cynlluniau Gweithredu a Gweithgarwch
 - e. Cofrestr risg
 - f. Cynllun Marchnata
 - ff. Llythyrau o gefnogaeth (yn cynnwys datganiadau gan aelodau'r gynghrair yn amlinellu'r cyfrifoldebau maen nhw'n cytuno i ymgymryd â nhw)

Dyddiad cau: **dydd Iau 1 Tachwedd, 2018**

Anfoner at: Tom Anderson, Cadeirydd YAG dros e-bost i: yracademigymreig@gmail.com

Bydd Bwrdd Rheoli presennol YAG yn asesu'r Cynllun Busnes, ac os bydd yn fodlon bod modd ei gyflawni a'i fod yn gweddu ag ethos a chylch gwaith presennol YAG, bydd yn gofyn i'r gynghair:

3) Ddarparu tystiolaeth o'r canlynol erbyn **31 Mawrth, 2019**:

- Cyfansoddiad y cytunwyd arno
- Pwyllgor/Bwrdd Rheoli wedi'i enwebu neu'i ethol
- Trysorydd wedi'i enwebu i gymryd cyfrifoldeb ariannol
- Cadeirydd wedi'i enwebu neu'i ethol
- Cyfrif banc i'r mudiad
- Dau lofnodwr penodedig ar gyfer trafodion ariannol
- Cyfeiriad busnes

Os bydd tystiolaeth o'r uchod i gyd, bydd Bwrdd Rheoli presennol YAG yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am YAG i'r gynghair newydd ar 1 Ebrill 2019.

Sylwer – Yn dilyn y penderfyniad yn y Cyfarfod Cyffredinol Arbennig, os na ddaw cynigion priodol i law, os bernir nad yw'r Cynllun Busnes yn addas i'r pwrpas, os bydd y broses yn dod i stop heb obaith datrys pethau, neu os bydd unrhyw un o'r gofynion tystiolaeth uchod yng ngham 3 yn eisiau ar 1 Ebrill 2019, yna dim ond fel brand ar gyfer ysgoloriaethau i awduron newydd y bydd yr Academi Gymreig yn bodoli yn y dyfodol, yn ogystal â gwobr flynyddol 'Gwobr yr Academi Gymreig' am wasanaethau neilltuol i lenyddiaeth, wedi'i chysylltu ag enw Glyn Jones.